OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 163

## Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

## RHAN 13

### Gofynion ar unigolion cyfrifol ar gyfer sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio'n effeithiol

**Goruchwylio digonolrwydd adnoddau**

**53.**—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol adrodd i'r darparwr gwasanaeth am ddigonolrwydd yr adnoddau sydd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r gofynion ar y darparwr gwasanaeth yn Rhannau 2 i 11.

(2) Rhaid i adroddiadau o'r fath gael eu gwneud yn chwarterol.

(3) Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn.

**Adroddiadau eraill i'r darparwr gwasanaeth**

**54.**—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol, yn ddi-oed, adrodd i'r darparwr gwasanaeth—

(a) am unrhyw bryderon ynghylch rheoli neu ddarparu'r gwasanaeth;

(b) am unrhyw newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli neu ei ddarparu;

(c) am unrhyw bryderon nad yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth.

(2) Ond nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys pan fo'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn.

**Ymgysylltu ag unigolion ac eraill**

**55.**—(1) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol roi trefniadau addas yn eu lle ar gyfer cael safbwyntiau—

(a) yr unigolion sy'n cael gofal a chymorth,

(b) unrhyw gynrychiolwyr yr unigolion hynny,

(c) gofalwyr lleoli oedolion,

(d) comisiynwyr gwasanaethau, ac

(e) staff sy'n cael eu cyflogi yn y gwasanaeth,

ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir a sut y gellir gwella hyn.

(2) Rhaid i'r unigolyn cyfrifol adrodd am y safbwyntiau a geir i'r darparwr gwasanaeth er mwyn i'r safbwyntiau hyn allu cael eu hystyried gan y darparwr gwasanaeth wrth wneud unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.